Adroddiad ar

# Ysgol Tŷ Monmouth

35 Bassaleg Road
Casnewydd
NP20 3EB

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglyn ag Ysgol Tŷ Monmouth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tŷ Monmouth |
| Statws y perchennog | Caiff Ysgol Tŷ Monmouth ei gweinyddu gan Phoenix Learning and Care Group, sy'n rhan o bortffolio Ashridge Capital, sef cwmni buddsoddiad ecwiti preifat. |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 20 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 20 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/05/2026 |

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol ddydd annibynnol yw Ysgol Tŷ Monmouth, sydd wedi'i lleoli mewn ardal faestrefol yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i addysgu uchafswm o 23 o ddisgyblion rhwng 7 ac 16 oed. Ar hyn o bryd, mae 20 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol rhwng 8 ac 16 oed.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm teilwredig ar gyfer disgyblion sydd ag awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y disgyblion eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan bob un o'r disgyblion gynllun datblygu unigol (CDU) neu gynllun cyfwerth.

Bu'r pennaeth yn y swydd ers sefydlu'r ysgol ym mis Chwefror 2022. Mae gan yr ysgol hefyd ddirprwy bennaeth, cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY), chwech o athrawon, 13 o gynorthwywyr addysgu a thri therapydd.

## Argymhellion blaenorol

A1 Mireinio prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio mwy ar addysgu a chynnydd disgyblion

A2 Parhau i ddatblygu'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu galwedigaethol i gynorthwyo disgyblion i ddilyn eu llwybrau dysgu dymunol

A3 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio pob un o'r disgyblion yn gyson i wneud cynnydd da

## Crynodeb

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn darparu amgylchedd tawel a meithringar lle mae lles emosiynol ac anghenion therapiwtig disgyblion wrth wraidd bywyd yr ysgol. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn helpu llawer o ddisgyblion i deimlo'n ddiogel, magu hyder ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu.

Ers yr arolygiad blaenorol, mae arweinwyr wedi cryfhau prosesau monitro a sicrhau ansawdd ac yn defnyddio gwybodaeth asesu yn fwy effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a nodi cymorth priodol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau monitro yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith addysgu ar gynnydd disgyblion bob tro, ac nid yw cynllunio gwelliant yn nodi deilliannau mesuradwy yn gyson yn ddigon clir.

Mae arweinwyr wedi ehangu'r cwricwlwm yn addas trwy lwybrau galwedigaethol, dysgu achrededig a phrofiadau ymarferol sy'n cefnogi dyheadau disgyblion a chynllunio ar gyfer eu camau nesaf. Mae disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd yr ysgol ac yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu medrau arweinyddiaeth a hunaneirioli. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau dysgu yn cynnig digon o her na chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Ar ben hynny, nid yw adborth i ddysgwyr yn eu helpu i ddeall yn glir sut i wella eu gwaith bob tro.

Mae tîm therapïau integredig yn cydweithio'n agos ag arweinwyr yr ysgol, athrawon a staff cymorth i sicrhau y caiff dulliau therapiwtig eu hymwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd buddiol yn eu gwydnwch emosiynol, eu hannibyniaeth a'u hunanreoleiddio.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn darparu amgylchedd, tawel, meithringar a hynod gefnogol, sydd wedi'i ategu gan ethos sy'n rhoi lles emosiynol ac anghenion therapiwtig disgyblion wrth wraidd bywyd yr ysgol. Mae arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm a model therapiwtig teilwredig sy'n ymateb yn dda i anghenion cymhleth disgyblion. Mae meintiau dosbarthiadau bach, cymhareb uchel o staff i ddisgyblion ac amgylcheddau dysgu sydd wedi'u haddasu'n ofalus yn cefnogi disgyblion i deimlo'n ddiogel, yn rheoleiddiedig ac yn fwyfwy parod i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn hynod gadarnhaol a pharchus yn gyson, sy'n cyfrannu at gynyddu hyder, ymgysylltiad a diogelwch emosiynol disgyblion. Mae disgyblion yn dangos balchder mewn bod yn aelodau o gymuned yr ysgol.

### Therapi integredig

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant meithringar dros ben, sy'n ystyriol o drawma, lle mae tîm therapïau integredig, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol a therapyddion creadigol yn cydweithio'n agos â'r staff addysgu a chymorth. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod dulliau therapiwtig yn cael eu hymwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad i'r cymorth hynod bersonoledig a gânt, gwna disgyblion gynnydd cryf yn eu gwydnwch emosiynol, eu hannibyniaeth a'u hymgysylltiad â'u dysgu.

Caiff staff eu cefnogi'n dda i ddeall anghenion unigol disgyblion. Maent yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynlluniau cefnogi ymddygiad personoledig i gefnogi hunanreoleiddio a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn nodi ac yn ymateb yn effeithiol i sbardunau unigol a all arwain at ymddygiadau sy'n gysylltiedig â gorbryder. Gwnânt ddefnydd buddiol o adnoddau cyfathrebu gweledol, arferion sydd wedi'u hymwreiddio a diddordebau personol disgyblion i hybu ymgysylltiad pwrpasol â dysgu. Mae staff yn defnyddio dulliau cynnwrf isel yn fedrus, gan helpu disgyblion i reoli gorbryder ac ailymgysylltu'n llwyddiannus pan fyddant wedi'u hafreoleiddio.

### Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Mae arweinwyr wedi cryfhau prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant trwy gyflwyno gweithgareddau monitro mwy rheolaidd, gan gynnwys teithiau dysgu, cyfarfodydd cynnydd a defnyddio gwybodaeth asesu'n well i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn wedi cryfhau goruchwyliaeth ac wedi cynyddu lefel yr her y mae arweinwyr yn ei chynnig i staff.

Trwy drafodaethau tîm amlddisgyblaethol a chyfarfodydd adolygu cynnydd, mae arweinwyr wedi ymwreiddio systemau i fonitro cynnydd disgyblion a gwerthuso effeithiolrwydd addysgu. Mae arweinwyr rhanbarthol ac uwch aelodau staff yn adolygu deilliannau ac yn rhoi ymyriadau amserol ar waith, yn ôl y gofyn. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r ysgol wedi ehangu'r cwricwlwm ac wedi ymestyn llwybrau galwedigaethol yn addas trwy roi tair 'taith ddysgu' ar waith, sy'n galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn dysgu achrededig, lle bo hynny'n briodol. Hefyd, mae'r ysgol wedi datblygu cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu i ffwrdd o'r safle a phrofiadau dysgu ymarferol sy'n cefnogi dyheadau disgyblion ac yn eu paratoi i fod yn oedolion. Mae disgyblion iau yn cymryd rhan mewn 'lôn chwarae rôl', lle maent yn dysgu am swyddi gwahanol tra mae disgyblion hŷn yn archwilio cyfleoedd ôl-16 gwahanol, gan gynnwys ymweliadau â cholegau lleol. Caiff disgyblion gefnogaeth gan asiantaethau allanol ar ymarfer cyfweliadau ac maent yn elwa ar siaradwyr allanol sy'n cynrychioli ystod eang o yrfaoedd, gan gynnwys y sectorau astroffiseg, chwaraeon, archaeoleg a thechnoleg.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn annibynnol, datrys problemau'n greadigol a chymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon wedi'u cyfyngu gan y gweithgaredd sy'n cael ei darparu. Yn yr achosion hyn, nid yw tasgau'n ymestyn nac yn herio disgyblion yn ddigonol i ddyfnhau eu dealltwriaeth neu ddatblygu annibyniaeth yn eu dysgu. Yn ogystal, nid yw adborth ac arweiniad ar y camau nesaf yng ngwaith disgyblion yn cael eu datblygu'n gyson ar draws yr ysgol, sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth disgyblion o sut i wella eu gwaith a gwneud cynnydd cynaliadwy dros gyfnod.

## Llais y disgybl

Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi datblygu gwybodaeth hygyrch i ddisgyblion sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, ymgynghorir â disgyblion yn rheolaidd ynghylch mentrau'r ysgol, gweithgareddau dysgu a'u hamserlenni. Mae bron pob un o'r staff yn dangos ymrwymiad i gasglu barn disgyblion a'u cynorthwyo i eirioli drostynt eu hunain. Ar ben hynny, mae disgyblion yn cyfrannu'n weithredol at fywyd yr ysgol, yn datblygu medrau arweinyddiaeth ac yn ysgwyddo cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae disgyblion yn rheoli siop fwyd yr ysgol, yn cymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin ac yn cefnogi disgyblion iau trwy fod yn fodelau rôl cadarnhaol.

## Arwain a gwella

Mae arweinwyr wedi datblygu tîm staff medrus, ymroddedig a rhagweithiol. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan arweinwyr ac maent yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad cryf o waith tîm a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt. Mae

arweinwyr yn modelu perthnasoedd parchus ac yn hybu diwylliant cynhwysol ac ymrwymiad cryf i waith amlasiantaeth i gefnogi teuluoedd bregus.

Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau cyfleoedd ar gyfer arfer fyfyriol a gwerthuso, gan alluogi dysgu proffesiynol i alinio'n agosach â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau'n canolbwyntio'n ddigon craff ar werthuso effaith addysgu a darpariaeth ar ddeilliannau disgyblion bob tro. Ar ben hynny, weithiau, mae meini prawf llwyddiant mewn cynlluniau gwella yn rhy eang ac yn nid ydynt yn cynnwys deilliannau mesuradwy penodol.

Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau o ran cadw disgyblion yn ddiogel. Mae systemau a gweithdrefnau clir ar waith, wedi'u hategu gan hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd, gan sicrhau bod diogelwch a lles disgyblion yn parhau i fod wrth wraidd pob agwedd ar waith a phenderfyniadau'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn hyderus y caiff unrhyw bryderon eu clywed ac yr eir i'r afael â nhw'n briodol.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Argymhellion newydd

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Gwella cysondeb ac ansawdd addysgu trwy sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn cynnig her briodol i ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion yn effeithiol

A2 Parhau i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio'n graffach ar effaith addysgu a darpariaeth ar gynnydd a deilliannau disgyblion

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwy:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu’r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. ‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’ neu ‘ychydig iawn o ddisgyblion…’. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/).

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026